

JONES, THOMAS (1720? - 1790), clerigwr ac awdur

Enw: Thomas Jones
Dyddiad geni: 1720?
Dyddiad marw: 1790
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: clerigwr ac awdur
Maes gweithgaredd: Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awdur: Elwyn Evans

Ychydig a wyddys am ei fywyd. Penodwyd ef yn ficer Pennant, Sir Drefaldwyn, yn 1757. Bu'n rheithor Llangynog, 1762-82, ac yn rheithor Hirnant, 1782-90. Yn 1763 cyhoeddwyd ei *Rheol o Addoliad ac Ymarfer Duwioldeb i'r Hwsmon* - sef cyfieithiad o ddarlithiau yr archesgob Thomas Secker, *Rule of Worship and Practice of Piety for the Husbandman*. Cyhoeddodd hefyd gyfieithiad o waith arall gan Secker sef *Traethiadau ar Gatecism Eglwys Loegr: gyda phregeth ar Gonffirmasiwn*, 1778. Y gwaith olaf a gyhoeddodd oedd *Pregeth ar Salm CXIX*, 165, yn 1779. Yn ôl cofrestr plwyf Hirnant fe gyfieithodd yn 1784 *Drych y Prif Oesoedd* gan [Theophilus Evans](#), ond nid ymddengys iddo gyhoeddi'r cyfieithiad. Bu farw yn 1790 a'i gladdu ym Mhennant 17 Gorffennaf.

Awdur

Elwyn Evans

Ffynonellau

R. Williams, *Montgomeryshire Worthies* (1894)

Charles Ashton, *Hanes llenyddiaeth Gymreig o 1651 O.C. hyd 1850* (1893)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20734479](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

